## Atodiad 7 – Cofnod o'r Sesiynau Galw Heibio a Gynhaliwyd

Trefnwyd y sesiynau galw heibio canlynol gan nodi manylion y newidiadau arfaethedig a rhoi'r cyfle i'r rhai sy'n mynychu i ofyn cwestiynau am y Ddarpariaeth Arbenigol ar gyfer Dysgwyr Cynradd ac Uwchradd ag Anghenion Iechyd a Lles Emosiynol a Darpariaeth Arbenigol ar gyfer Dysgwyr Cynradd ag Anghenion Dysgu Cymhleth a/neu Awtistiaeth.

Darparwyd sesiynau galw heibio mewn ysgolion unigol ar gyfer rhieni / gofalwyr eu dysgwyr ar gais.

**Sesiynau Galw heibio Wyneb yn Wyneb**

- Hyb Partneriaeth Treläi a Chaerau – 29 Tachwedd 2023
- Hyb Pwerdy Llanedern – 5 Rhagfyr 2023
- Hyb Partneriaeth Tredelerch - 8 Ionawr 2024

**Sesiynau Galw Heibio Wyneb yn Wyneb trwy Microsoft Teams**

- Sesiwn Galw Heibio Ar-lein – 12 Rhagfyr 2023
- Sesiwn Galw Heibio Ar-lein – 12 Ionawr 2024

**Sesiynau Galw Heibio Wyneb yn Wyneb y Gofynnir Amdanynt gan Ysgolion**

- Ysgol Gynradd Herbert Thompson - 5 Ionawr 2023

**Rhaglen Ysgolion**
**Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol**
**Sesiwn Galw Heibio Wyneb yn Wyneb,**
**Hyb Partneriaeth Trelái a** Chaerau
**29 Tachwedd 2023 9am – 11am,**

**Yn bresennol:** Rosalie Phillips (CTY), Ceri Tanti (CTY), Mynychwyr cyfarfod sesiwn galw heibio

*Noder: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r cyfarfodydd a wnaed ar y pryd.*

**Cynhaliwyd y sesiwn galw heibio wyneb yn wyneb, yn Hyb Partneriaeth Trelái a Chaerau. Roedd swyddogion ar gael i siarad â'r mynychwyr ac ateb unrhyw gwestiynau oedd ganddynt. Nid oedd angen trefnu presenoldeb ymlaen llaw.**

**Wrth siarad â mynychwyr, nododd swyddogion bwrpas y sesiwn; i ateb unrhyw gwestiynau a allai fod gan fynychwyr ar y cynigion i ddarparu lleoedd ADY ychwanegol i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Cymhleth a/neu Awtistiaeth ac Anghenion Iechyd a Lles Emosiynol mewn nifer o ysgolion ledled y ddinas.**

Mae **mynychwr 1** yn rhiant i blentyn sy'n mynychu CAA Anghenion Dysgu Cymhleth (ADC). Mae ganddo blentyn arall sy'n mynychu ysgol y cynigir iddi gael CAA ac roedd ganddo ddiddordeb mewn darganfod a ellid symud ei blentyn sy'n mynychu'r CAA i'w ysgol leol.

Roedd y rhiant yn cefnogi dosbarthiad gwell o leoedd ar draws y ddinas i ganiatáu i blant gael mynediad at ganolfan adnoddau arbenigol yn nes at adref. Byddai hyn yn caniatáu i rieni gael mwy o fynediad at drafodaethau un i un gyda'r athrawon, neu alw heibio os yw plentyn yn cael anawsterau, sy'n rhywbeth y gallent ei wneud pe bai eu plentyn yn mynychu'r ysgol leol yn hytrach na'r CAA sy'n llawer pellach i ffwrdd.

Mae gan y plentyn lyfr i'r rhiant gyfathrebu â'r ysgol ond nid yw'r un peth â gallu cael diweddariad llafar. Mae'r rhiant hefyd yn cael lluniau trwy Seesaw, ond nid yw bob amser yn cael llawer o gyd-destun ar gyfer yr hyn sy'n digwydd yn y llun. Nid yw rhai plant ag ADY yn gallu cyfleu pethau y maent wedi'u gwneud yn yr ysgol felly byddai'n ei gwneud hi'n haws cysylltu pe gallai'r rhiant ollwng a chodi'r plentyn ei hun yn hytrach na dibynnu ar drafnidiaeth ysgol. Mae hefyd yn haws mynd i ddigwyddiadau'r ysgol a meithrin perthynas gyda'r ysgol os yw'r plentyn yn cael ei leoli'n agosach at adref.

Dywedodd y rhiant bod cyfyngiadau pan mae gennych blentyn sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a'i fod yn teimlo nad oes llawer o gefnogaeth ar ôl cael diagnosis.

Dywedodd swyddogion mai rhan o'r rheswm dros y cynigion yw gallu gwella dosbarthiad lleoedd ar draws y ddinas, fel y gall dysgwyr gael mynediad at le arbenigol yn nes at adref.

Esboniodd swyddogion fod y CAA sydd wedi'i chynllunio ar gyfer yr ysgol sy'n fwy lleol iddo yn CAA Iechyd a Lles Emosiynol felly yn anffodus efallai na fydd yn gallu darparu'r math o le sydd ei angen ar ei blentyn. Awgrymodd swyddogion fod y rhiant yn cysylltu â Llinell Gymorth ADY y Cyngor ar gyfer rhieni / gofalwyr ar LlinellGymorthADY@caerdydd.gov.uk i geisio cyngor ar ofyn am symud i CAA amgen a darganfod pa gymorth sydd ar gael i rieni / gofalwyr.

Mae **mynychwr 2** yn gweithio mewn ysgol Gymraeg. Roedd e’n teimlo bod bendant angen lleoedd ychwanegol i blant ag ADY.

Mynegodd y mynychwr, er ei fod yn cefnogi datblygiad darpariaeth ADY drwy gyfrwng y Gymraeg, bod rhai disgyblion yn teimlo bod yr iaith yn rhwystr / cymhlethdod ychwanegol ac ar gyfer y rhain gallai lleoliad mewn darpariaeth cyfrwng Saesneg fod yn fwy priodol.

Mae rhai plant oedran uwchradd ag anghenion ILlE yn mynychu darpariaeth oddi ar y safle fel mecaneg beiciau modur. Mae hyn yn arwain at gostau teithio ychwanegol i'r ysgol i fynd â'r disgyblion i'r ddarpariaeth amgen. Gofynnwyd a yw'r cyllid ar gyfer y CAA Iechyd a Lles Emosiynol a gynigir ar gyfer Ysgol Plasmawr ar gyfer staffio'r ganolfan yn unig neu a fyddai cyllid ychwanegol ar gyfer costau darpariaeth oddi ar y safle.

Nid oedd swyddogion yn gwybod a fyddai cyllid ychwanegol ar gael ar gyfer darpariaeth oddi ar y safle. Fodd bynnag, roedd cyfarfod i fod i gael ei gynnal gyda Chorff Llywodraethu Ysgol Plasmawr a swyddogion y Cyngor i drafod y cynnig ar 13 Rhagfyr ac awgrymodd swyddogion y dylid codi'r pryderon hyn gyda chynrychiolydd o’r corff llywodraethu iddo godi hyn yn y cyfarfod.

*Ym mhob achos cadarnhaodd y mynychwyr nad oedd ganddynt unrhyw gwestiynau pellach. Diolchwyd i'r mynychwyr am eu hamser, a chawsant eu cyfeirio at y wybodaeth ymgynghori ar y wefan a dywedwyd wrthynt fod sylwadau mewn ymateb i'r ymgynghoriad yn cael eu croesawu.*

**Rhaglen Ysgolion**
**Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol**
**Sesiwn Galw Heibio Wyneb yn Wyneb**
**Hyb Powerhouse Llanedern**
**05 Rhagfyr 2023, 9am – 11am**

**Yn bresennol:** Rosalie Phillips (CTY), Shirley Karseras (CTY),

*Noder: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r cyfarfodydd a wnaed ar y pryd.*

**Cynhaliwyd y sesiwn galw heibio wyneb yn wyneb, yn Hyb Powerhouse Llanedern. Roedd swyddogion ar gael i siarad â'r mynychwyr ac ateb unrhyw gwestiynau oedd ganddynt. Nid oedd angen trefnu presenoldeb ymlaen llaw.**

Nid oedd unrhyw fynychwyr

**Yn bresennol:** Ian Warburton (CTY), Ceri Tanti (CTY), Mynychwyr cyfarfod sesiwn galw heibio

*Noder: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r cyfarfodydd a wnaed ar y pryd.*

**Cynhaliwyd y sesiwn galw heibio wyneb yn wyneb, yng Nghanolfan Partneriaeth Tredelerch. Roedd swyddogion ar gael i siarad â'r mynychwyr ac ateb unrhyw gwestiynau oedd ganddynt. Nid oedd angen trefnu presenoldeb ymlaen llaw.**

**Wrth siarad â mynychwyr, nododd swyddogion bwrpas y sesiwn; i ateb unrhyw gwestiynau a allai fod gan fynychwyr ar y cynigion i ddarparu lleoedd ADY ychwanegol i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Cymhleth a/neu Awtistiaeth ac Anghenion Iechyd a Lles Emosiynol mewn nifer o ysgolion ledled y ddinas.**

Mae **Mynychwr 1** yn llywodraethwr mewn ysgol yn nwyrain Caerdydd nad yw'n un o'r ysgolion sydd wedi'u cynnwys yn y cynigion presennol. Mae gan y llywodraethwr gefndir o weithio ym maes ADY mewn ysgolion.

Roedd gan y mynychwr ddiddordeb mewn darganfod pa ddarpariaeth oedd wedi'i dileu, gan ofyn a oedd ysgol arbennig wedi ei chau, gan arwain at y cynigion ar gyfer y lleoedd hyn.

Eglurodd swyddogion fod y cynigion ar gyfer mannau ychwanegol; nid oedd unrhyw gynigion i gael gwared ar leoedd, er bod rhai o'r Canolfannau Adnoddau Arbenigol yn disodli dosbarthiadau lles ni fyddai llai o leoedd mewn unrhyw ysgol, a chynigiwyd i rai ysgolion gael darpariaeth newydd.

Croesawodd y mynychwr yr egwyddor o ddosbarthu lleoedd ar draws y ddinas, er mwyn rhoi gwell siawns i ddysgwyr sydd angen lle arbenigol gael lle addas yn agosach at adref. Roeddent hefyd yn croesawu darparu lleoedd ychwanegol, yn enwedig yn nwyrain y ddinas.

Gofynnodd y mynychwr sut y byddai arian yn cael ei ddiogelu fel na allai'r ysgolion ddefnyddio'r cyllid a ddarperir gan y Cyngor i blant sy'n mynychu'r CAA at ddibenion eraill. Eglurodd swyddogion fod y cyllid ar gyfer staff addysgu a chymorth arbenigol ac felly ni ddylai fod ar gael i'w ddefnyddio at ddibenion eraill.

Dywedodd y mynychwr ei fod o blaid y cynigion i gynyddu'r ddarpariaeth ADY ar draws y ddinas.

Cadarnhaodd y mynychwr nad oedd ganddo unrhyw gwestiynau pellach. Cyfeiriodd swyddogion ef at y wybodaeth ymgynghori ar y wefan gan ddweud bod unrhyw sylwadau mewn ymateb i'r ymgynghoriad yn cael eu croesawu. Nodwyd yr amserlenni ar gyfer camau nesaf yr adroddiad. Diolchwyd i'r mynychwr am ddod i'r sesiwn galw heibio.

**Yn bresennol:** Rosalie Phillips (CTY), Ceri Tanti (CTY), Mynychwyr y sesiwn galw heibio

*Noder: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r sesiynau a wnaed ar y pryd.*

**Cynhaliwyd y sesiynau trwy Microsoft Teams fel slotiau 10-15 munud, ar adegau wedi'u trefnu ymlaen llaw trwy e-bost. Cynhaliwyd dwy sesiwn unigol ar 12 Rhagfyr.**

**Dechreuodd pob un gyda'r swyddogion yn nodi pwrpas y sesiwn; i ateb unrhyw gwestiynau a allai fod gan fynychwyr ar y cynigion i ddarparu lleoedd ADY ychwanegol i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Cymhleth a/neu Awtistiaeth ac Anghenion Iechyd a Lles Emosiynol mewn nifer o ysgolion ledled y ddinas.**

Mae **mynychwr 1** yn rhiant i blentyn yn un o'r ysgolion y cynigir iddi gael CAA Anghenion Dysgu Cymhleth. Mae Cydlynydd ADY wedi rhoi gwybod bod angen lle ar y plentyn mewn CAA.

**C: Pa mor debygol yw hi y bydd y cynigion yn mynd rhagddynt, ac y bydd yr ysgol yn cael CAA?**

A: Mae'r cynigion yn y cam ymgynghori sy'n rhedeg tan 19 Ionawr. Yn dilyn hyn, bydd adborth o'r ymgynghoriad yn cael ei grynhoi / arfarnu a'i adrodd yn ôl i'r Cabinet, sy'n debygol o fod ym mis Mawrth 2024. Os bydd cynigion yn mynd yn eu blaen, y cam nesaf yw cyhoeddi hysbysiadau statudol. Er nad yw cynigion ADY fel arfer yn derbyn gwrthwynebiadau, ni ellir gwarantu hyn, a gellir penderfynu peidio â bwrw ymlaen â rhai neu bob un o'r cynigion oherwydd gwrthwynebiadau neu resymau eraill. Dylen ni wybod p'un a fydd y cynnig yn symud ymlaen ai peidio erbyn mis Mai / Mehefin 2024.

Os caiff ei ddatblygu, y bwriad yw dechrau gweithredu'r CAA ym mis Medi 2024. Byddai Tîm ADY yr Awdurdod Lleol yn penderfynu pa blant sy'n cael y lleoedd mewn CAA.

Ar hyn o bryd nid yw'r ddarpariaeth ar gael ar draws y ddinas, sef un o'r rhesymau dros y cynigion. Y nod yw darparu lleoedd addas i blant yn nes at adref, ond dyrennir lleoedd yn ôl angen.

Bydd rhieni yn yr ysgolion dan sylw yn cael gwybod am gynnydd y cynigion.

Mae **mynychwr 2** yn rhiant i blentyn ag ADY sy'n mynychu un o'r ysgolion lle cynigir cael canolfan ADC / CSA.

**C: Hoffwn gael mwy o wybodaeth am yr hyn a gynigir.**

A: Mae ymgynghoriad wrthi'n cael ei gynnal ar gyfer y cynigion hyn a gofynnir am sylwadau erbyn 19 Ionawr 2024. Bydd adroddiad ar adborth a dderbyniwyd yn cael ei ystyried gan y Cabinet, sy'n debygol o fod ym mis Mawrth 2024. Os bydd y cynigion yn mynd yn eu blaen, y cam nesaf yw cyhoeddi hysbysiadau statudol. Mae'n debygol y

bydd penderfyniad ynghylch parhau â'r newidiadau arfaethedig yn cael ei wneud yn ddiweddarach yn 2024.

Os bydd y CAA yn mynd yn ei flaen, bydd dau ddosbarth, un cyfnod sylfaen, ac un ar gyfer plant cyfnod allweddol hŷn, a fydd yn cael eu staffio gan athrawon arbenigol a chynorthwywyr addysgu. Tîm ADY y Cyngor fydd yn penderfynu pa blant sy'n cael lleoedd. O bosib byddai dysgwyr yn treulio peth amser yn y ganolfan a rhai yn y brif ffrwd, ond byddai hyn yn ddibynnol ar anghenion y plant a roddir yn y ganolfan.

**C: Dywedodd y rhiant ei fod yn teimlo ei bod yn gadarnhaol iawn i ddysgwyr gael mynediad at CAA a'r brif ffrwd. Gofynnwyd pa mor debygol yw hi y bydd y cynigion yn mynd yn eu blaen?**

A: Yn seiliedig ar brofiadau blaenorol o gynigion ADY, y disgwyliad yw y byddai'r newidiadau arfaethedig yn symud ymlaen ond ni allant warantu y bydd hyn yn digwydd. Byddai'n dibynnu ar adborth o'r ymgynghoriad a'r Cabinet yn penderfynu symud cynigion ymlaen i'r cam nesaf.

**C: Dywedodd y rhiant ei fod yn teimlo y byddai'n fuddiol cael CAAau yn y brif ffrwd yn hytrach na dim ond mewn ysgolion arbennig.**

A: Rhan o'r rheswm dros y cynigion yw gwella dosbarthiad lleoedd ar draws y ddinas, sy'n golygu efallai na fydd rhaid i blant deithio y tu allan i'w cymunedau er mwyn cael mynediad i'r lleoliad sydd ei angen arnynt.

**C: Sut mae lleoedd CAA mewn ysgolion cynradd yn cysylltu ag ysgolion uwchradd?**

A: Byddai'r math o le mewn ysgol uwchradd, cynnydd y dysgwyr a sut maen nhw'n datblygu tra yn y ganolfan yn pennu trefniadau pontio - gallai plant fynd ymlaen i brif ffrwd gyda chefnogaeth, prif ffrwd gyda chanolfan, neu ysgol arbennig.

**C: Dywedodd y rhiant fod ei blentyn wedi gorfod gadael un ysgol i fynd i un arall gyda dosbarth lles. Mae'n drafferthus iawn gorfod symud ysgol er bod yr ysgol y mae'r plentyn bellach yn ei mynychu yn gwneud gwaith eithriadol gydag ef.**

A: Cydnabuwyd y gall fod yn drafferthus i blant orfod symud ysgol, yn enwedig dysgwyr ag ADY. Gyda'r cynigion, byddai lleoedd ar gael o fis Medi 2024 ymlaen, ond byddant yn gwybod yn ddiweddarach y flwyddyn ysgol hon a fydd y cynigion yn debygol o fynd yn eu blaenau.

Bydd y broses o ddyrannu lleoedd yn y CAAau yn cael ei phennu gan y tîm ADY ar y cyd â'r ysgolion.

Ym mhob sesiwn cadarnhaodd y mynychwyr nad oedd ganddynt unrhyw gwestiynau pellach. Diolchwyd i'r mynychwyr am eu hamser, a chawsant eu cyfeirio at y wybodaeth ymgynghori ar y wefan a dywedwyd wrthynt fod sylwadau mewn ymateb i'r ymgynghoriad yn cael eu croesawu.

**Yn bresennol:** Rosalie Phillips (CTY), Ceri Tanti (CTY), Mynychwyr y sesiwn galw heibio

*Noder: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r sesiynau a wnaed ar y pryd.*

**Cynhaliwyd y sesiynau trwy Microsoft Teams fel slotiau 10-15 munud, ar adegau wedi'u trefnu ymlaen llaw trwy e-bost. Cynhaliwyd dwy sesiwn unigol ar 12 Ionawr.**

**Dechreuodd pob un gyda'r swyddogion yn nodi pwrpas y sesiwn; i ateb unrhyw gwestiynau a allai fod gan fynychwyr ar y cynigion i ddarparu lleoedd ADY ychwanegol i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Cymhleth a/neu Awtistiaeth ac Anghenion Iechyd a Lles Emosiynol mewn nifer o ysgolion ledled y ddinas.**

Mae **mynychwr 1** yn rhiant i blentyn sy'n mynychu un o'r ysgolion lle cynigir bod y Dosbarth Iechyd a Lles Emosiynol presennol yn cael ei ddisodli gan Ganolfan Adnoddau Arbenigol Iechyd a Lles Emosiynol.

**C: Mae'r cynigion yn cyfeirio at ddisodli'r dosbarth lles presennol. Beth fydd yn wahanol am y CAA Iechyd a Lles Emosiynol?**

A: Esboniodd swyddogion y byddai disgwyl i ddisgyblion ymuno â dosbarth lles am gyfnod penodol ac yna ddychwelyd i'w hysgol gartref, tra byddai lle mewn CAA yn caniatáu mwy o hyblygrwydd ac i blant aros yn y ganolfan cyhyd ag y bo angen.

Pe bai'r cynigion yn mynd yn eu blaen, ni ddisgwylir llawer o wahaniaeth mewn ymarfer gwaith rhwng sut mae'r dosbarth lles yn gweithredu a sut y byddai CAA yn gweithio.

**C: Mae'r rhiant yn cefnogi cael y math hwn o ddarpariaeth ar gael i ddisgyblion cyfrwng Cymraeg ond roedd ganddo bryderon am ddarpariaeth bresennol y dosbarth lles; nid yw'n teimlo bod y dosbarth yn gweithio'n dda.**

A: Cytunodd swyddogion ei bod yn bwysig bod y Cyngor yn gallu cynnig lleoedd anghenion dysgu ychwanegol drwy gyfrwng y Gymraeg i sicrhau bod teuluoedd yn cael yr opsiwn o gael eu plentyn yn parhau mewn addysg cyfrwng Cymraeg pe bai angen darpariaeth arbenigol arno.

Cynigiodd swyddogion gyfeirio'r rhiant at y Tîm Cynhwysiant er mwyn iddo drafod ei bryderon am y dosbarth lles yn fanylach, ond cawsant wybod bod hyn eisoes wedi'i wneud.

Nododd swyddogion y camau nesaf ar gyfer yr ymgynghoriad, gan nodi y bydd adroddiad ar yr adborth a dderbyniwyd yn cael ei ystyried gan y Cabinet, sy'n debygol o fod ym mis Mawrth 2024. Os bydd y cynigion yn mynd yn eu blaen, y cam nesaf yw cyhoeddi hysbysiadau statudol. Os caiff y cynigion eu datblygu, y bwriad yw dechrau gweithredu'r CAA ym mis Medi 2024.

Bydd rhieni yn yr ysgolion dan sylw yn cael gwybod am gynnydd y cynigion.

**C: Gofynnodd y rhiant pa gymorth sydd ar gael i blant uwchradd sydd ag anghenion Iechyd a Lles Emosiynol drwy gyfrwng y Gymraeg.**

A: Dywedodd swyddogion fod yr ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd yn cynnig rhywfaint o ddarpariaeth fewnol ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion iechyd a lles emosiynol a nodwyd bod yr ymgynghoriad ADY presennol yn cynnwys cynigion i sefydlu canolfan adnoddau arbenigol ag 20 lle ar gyfer dysgwyr ag anghenion iechyd a lles emosiynol yn Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr o fis Medi 2024.

Mae gan **mynychwr 2** ddiddordeb mewn darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol.

**C: Hoffwn gael mwy o wybodaeth am yr hyn a gynigir ar gyfer ardaloedd Trelái a Chaerau.**

A: Amlinellodd swyddogion fod y cynigion ADY presennol yn cynnwys sefydlu canolfan adnoddau arbenigol ag 16 lle ar gyfer iechyd a lles emosiynol yn Ysgol Gynradd Herbert Thompson o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol.

Mae'r ymgynghoriad cyfredol hefyd yn ceisio safbwyntiau ar sefydlu canolfan adnoddau arbenigol ag 20 lle ar gyfer dysgwyr ag anghenion iechyd a lles emosiynol yn Ysgol Gyfun
Gymraeg Plasmawr o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol. Nid yw'r ysgol hon wedi'i lleoli yn Nhrelái na Chaerau, ond mae ei dalgylch yn cwmpasu'r ardaloedd hynny.

Mae ardaloedd Trelái a Chaerau eisoes yn gartref i ddarpariaeth ysgolion arbennig a chanolfannau adnoddau arbenigol. Dangosodd swyddogion fap ar y sgrin a oedd yn dangos y rhain (ysgolion arbennig ar gyfer Anghenion Dysgu Cymhleth Tŷ Gwyn, Riverbank a Woodlands, canolfan adnoddau arbenigol ADC ar gyfer plant cynradd yn Ysgol Gynradd Windsor Clive a chanolfan adnoddau arbenigol iechyd a lles emosiynol ar gyfer dysgwyr uwchradd yn Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd).

Ym mhob sesiwn cadarnhaodd y mynychwyr nad oedd ganddynt unrhyw gwestiynau pellach. Diolchwyd i'r mynychwyr am eu hamser, a chawsant eu cyfeirio at y wybodaeth ymgynghori ar y wefan a dywedwyd wrthynt fod yr holl sylwadau mewn ymateb i'r ymgynghoriad yn cael eu croesawu.

**Rhaglen Ysgolion**
**Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol**
**Sesiwn Galw Heibio Wyneb yn Wyneb i Rieni,**
**Ysgol Gynradd Herbert Thompson**
**15 Ionawr 2024 3pm – 3:30pm,**

**Yn bresennol:** Rosalie Phillips (CTY), Mynychwyr cyfarfod sesiwn galw heibio

*Noder: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r cyfarfodydd a wnaed ar y pryd.*

**Cynhaliwyd y sesiwn galw heibio fel un wyneb yn wyneb, yn Ysgol Gynradd Herbert Thompson, ar gais yr ysgol. Roedd y sesiwn ar gyfer rhieni / gofalwyr dysgwyr yn yr ysgol. Roedd swyddogion ar gael i siarad â'r mynychwyr ac ateb unrhyw gwestiynau oedd ganddynt. Nid oedd angen trefnu presenoldeb ymlaen llaw.**

**Wrth siarad â mynychwyr, nododd swyddogion bwrpas y sesiwn; i ateb unrhyw gwestiynau a allai fod gan fynychwyr ar y cynigion i ddarparu lleoedd ADY ychwanegol i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Cymhleth a/neu Awtistiaeth ac Anghenion Iechyd a Lles Emosiynol mewn nifer o ysgolion ledled y ddinas.**

Mae **mynychwr 1** yn rhiant i blentyn sy'n mynychu'r ysgol. Roedd y rhiant yn cefnogi'r cynnig i sefydlu'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol gan fod angen am hyn. Roedd ganddo ymholiad ynglŷn â'r broses dderbyn i'r ganolfan a nodwyd manylion o ran sut y byddai hyn yn gweithio.

Nid oedd unrhyw gwestiynau pellach a daeth y sesiwn i ben.